

Trugaredd

Darlleniad: Salm 103: 1-13

Deuwn ger dy fron â llawenydd, Arglwydd, wrth feddwl dy fod yn Dduw trugarog a graslon, yn araf i ddigio ac yn llawn ffyddlondeb. Addolwn di am dy fod yn trugarhau wrth fyd pechadurus, ac wrth bechaduriaid unigol. Cyffeswn nad ydym yn haeddu trugaredd oherwydd ein gwrthryfel naturiol yn dy erbyn, yn mynnu tynnu'n groes i ti wrth reddf. Gogoneddwn di am dy fod yn fodlon ymwneud â dynoliaeth o gwbl, yn hytrach na'i dileu, oherwydd ei hanufudd-dod i ti. Cydnabyddwn dy gynhaliaeth barhaus i'th fyd.

‘Nid oes terfyn ar drugaredd yr Arglwydd, ac yn sicr ni phalla ei dosturiaethau. Y maent yn newydd bob bore, a mawr yw dy ffyddlondeb.’

Diolchwn i ti am dy fod yn goddef cymaint o bechod ac annuwioldeb heb gosbi'n syth. Rhyfeddwn at amynedd dy drugaredd yn gohirio barn er mwyn rhoi cyfle i ni edifarhau.

Diolchwn i ti dy fod, yn dy drugaredd, wedi cynllunio ffordd i achub ac adfer dy bobl o fod yn bechaduriaid gwrthryfelgar, i fod yn sanctaidd a di-nam ar lun a delw Crist:

‘Rhyfedd na buaswn nawr
yn y fflamau.
Wedi cael fy nhorri i lawr
Am fy meiau.’

Diolchwn am gynllun costus dy achubiaeth o anfon dy unig Fab i fod yn ail Adda, i fod yn ben y greadigaeth newydd. Diolch am i ti ei roi fel aberth dros bechodau dy bobl. Diolch i ti ei roi fel oen i'r lladdfa. Diolch am iddo fod yn iawn dros ein pechodau ni. O! Arglwydd, mor fawr yw dy drugaredd. Mae gogoniant dy drugaredd yn fwy na gogoniant y creu hyd yn oed.

‘Ond prawf Duw o’r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid.’

Diolchwn fod cylch dy drugaredd mor eang â phob cyfandir, pob llwyth a gwlad ac iaith. Diolchwn hefyd dy fod, yn dy drugaredd, wedi ein galw ni’n bersonol i edifeirwch a ffydd yn dy Fab Iesu Grist. Oni bai am dy drugaredd, ni fyddem yn credu ynot nac yn pwyso arnat. Diolchwn yn ostyngedig. Deuwn ger dy fron yn awr i apelio am drugaredd eto. Bendithia ni a derbyn ni nawr mewn trugaredd. Tyrd yn agos atom mewn trugaredd.

Gofynnwn i ti, O! Arglwydd, am ras i drugarhau fel y cawsom ni drugaredd. Helpa ni i dosturio wrth ein gilydd fel Cristnogion. Rho inni ras i drugarhau a thosturio wrth bobl ein cylchoedd ni. Gwared ni rhag edrych i lawr ar eraill. Cynorthwya ni i’w caru yn null Crist, yn ôl eu hangen ysbrydol a chorfforol, a hynny trwy aberth gwirfoddol. Helpa ni i ymwneud â phobl o bob math, er gogoniant i’th drugaredd a’th enw di.

Derbyn ein gweddi yn enw ac yn haeddiant Iesu Grist. Amen.

John Treharne